GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Gwasanaethau Ysbyty Brys

Mae'r ffordd yr ydym yn darparu gofal iechyd yng Ngwent yn newid

Ar 17 Tachwedd 2020 bydd Ysbyty Athrofaol newydd y Faenor yn agor i ddarparu Gofal Critigol ac Arbenigol i bob preswylydd sy'n byw yng Ngwent a De Powys.

Bydd yr ysbyty newydd yn darparu canolfan ragoriaeth i drin ein cleifion sy'n ddifrifol wael, neu'r rhai ag anafiadau sylweddol, a hon fydd yr uned drawma ddynodedig ar gyfer ein hardal.

Bydd yr ysbyty yn agor yn gynt na'r disgwyl ym mis Tachwedd 2020 i'n helpu i ymateb i bwysau'r gaeaf ac ail don bosibl o COVID-19.

SALWCH/ANAF DIFRIFOL
Byddwch yn cael eich gweld yn Ysbyty Athrofaol newydd y Faenor.

MÂN ANAF
Byddwch yn cael eich gweld yn un o'n pedair Uned Mân Anafiadau yng Ngwent - nid yn Ysbyty Athrofaol y Faenor.

Yn y gorffennol, mae Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall wedi darparu gwasanaethau meddygol brys - ond o fis Tachwedd 2020 ymlaen bydd y rhain yn cael eu canoli yn Ysbyty Athrofaol y Faenor i sicrhau bod gofal o'r safon uchaf yn cael ei ddarparu i bobl leol.



Bydd yr Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall yn newid, gan na fydd ganddyn nhw bellach yr ystod lawn o wasanaethau wrth gefn i gefnogi Adran Achosion Brys lawn. Bydd y rhain yn dod yn **Unedau Mân Anafiadau** dan arweiniad Ymarferwyr Nyrsio Brys, yn gweithredu 24 awr y dydd a 7 diwrnod yr wythnos *(gweler y taflenni gwybodaeth am yr ysbytai hyn i gael mwy o wybodaeth).*

Ffoniwch 999 neu ewch yn syth i Ysbyty Athrofaol y Faenor os oes gennych salwch neu anaf difrifol, gan gynnwys:

- anawsterau anadlu difrifol
- poen neu waedu difrifol,
- poen yn y frest neu amheuaeth o strôc,
- anafiadau trawma difrifol (e.e. ar ôl damwain car)

Os nad yw'n argyfwng sy'n bygwth bywyd a'ch bod yn ansicr am ble i fynd i gael triniaeth, ffoniwch 111 i gael cymorth a chyngor.

Cael y gofal cywir i chi

Mewn argyfwng, bydd cleifion y mae angen iddynt gael eu trin gan dîm arbenigol yn mynd yn syth i Ysbyty Athrofaol y Faenor, lle bydd y lefelau uchaf o ofal a chymorth diagnostig ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Bydd rhai cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio gan eu Meddyg Teulu yn gallu cael triniaeth yn nes at eu cartref yn eu hysbyty lleol. Os bydd eich iechyd yn dirywio tra'ch bod yn cael triniaeth yn unrhyw un o'n hysbytai a'ch bod angen mynediad at yr arbenigwyr neu'r gofal critigol a ddarperir yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, byddwn yn eich trosglwyddo yno trwy ein gwasanaeth cludo cleifion pwrpasol.

I ble fyddaf yn mynd i gael Triniaeth Frys?

Os oes gennych anaf neu salwch difrifol

O 17 Tachwedd 2020 pan fydd yr ysbyty newydd yn agor, os oes gennych anaf neu salwch sy'n bygwth bywyd, mae angen i chi ffonio 999 ar unwaith neu fynd i Ysbyty Athrofaol y Faenor yn syth.

Os oes gennych fân anaf ac yn mynd i Uned Mân Anafiadau

Byddai asesiad yn cael ei wneud gan Ymarferydd Nyrsio Brys yn Ysbyty Brenhinol Gwent (Casnewydd), Ysbyty Nevill Hall (Y Fenni), Ysbyty Ystrad Fawr (Ystrad Mynach), neu Ysbyty Aneurin Bevan (Glynebwy). Rydym yn disgwyl y bydd mwyafrif yr anafiadau'n cael eu trin yn ddiogel yn ein Hunedau Mân Anafiadau, ond bydd rhai anafiadau'n fwy difrifol ac yn yr achosion hynny bydd cleifion yn cael eu trosglwyddo i Ysbyty Athrofaol y Faenor i gael gofal arbenigol.

Os oes gennych fân anaf neu salwch ac yn mynd i Ysbyty Athrofaol y Faenor

Os yw claf yn dod i Ysbyty Athrofaol y Faenor gyda mân anaf neu salwch bydd yn cael ei ailgyfeirio'n ddiogel i un o'n hysbytai eraill, neu'n ôl at ei feddyg teulu. Os yw claf yn ddifrifol wael neu gyda anaf(iadau) difrifol a ddim yn cyrraedd mewn ambiwlans, bydd y claf yn cael ei weld a'i asesu.

Os nad ydych yn siŵr a ddylech fynd i Uned Mân Anafiadau, ffoniwch 111 i gael cymorth a chyngor.

Dewis y gwasanaeth priodol mewn argyfwng

Ar ôl i Ysbyty Athrofaol y Faenor agor, os ydych chi'n mynd i Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall neu unrhyw un o'n hysbytai eraill a bod gennych anaf neu salwch sy'n bygwth bywyd, byddwch yn cael eich trosglwyddo i'r ysbyty newydd.

Er mwyn osgoi unrhyw oedi posibl i'ch triniaeth, os oes gennych salwch neu anaf difrifol sy'n bygwth bywyd, ffoniwch 999 neu ewch yn syth i Ysbyty Athrofaol y Faenor lle byddwch yn cael gofal a thriniaeth arbenigol.

Am ragor o wybodaeth, ewch i **bipab.gig.cymru.**

Dilynwch ni i gael y wybodaeth ddiweddaraf neu i ofyn cwestiwn:

@BIPAneurinBevan /BwrddIechydAneurinBevan

Dyfodol Clinigol
Clinical Futures